



Gwasanaeth Cymdeithasol Addysg

GWYBODAETH

I RIENI

PLANT SYDD MEWN

SWYDDI RHAN AMSER

Dr Lowri Brown
Pennaeth Gwasanaethau Addysg Dros Dro
Gwasanaethau Addysg
Adeiladau'r Llywodraeth
Ffordd Dinerth
Bae Colwyn
LL28 4UL
☎: (01492) 575 096

COFIWCH

Mae angen llawer o sylw i waith ysgol felly dylech sicrhau bod eich plentyn yn gallu gwneud a pharhau a'u hastudiaethau pe bai ganddynt swydd rhan amser.

BODLONWCH EICH HUN

- Bod y swydd yn ddiogel;
- Eich bod wedi arwyddo'r ffurflen gais;
- Dywedwch am unrhyw bryderon wrth y Gweithiwr Cymdeithasol Addysg sydd yn ysgol eich plentyn.

SWYDDI NAD OES ANGEN TRWYDDED

- Plant sy'n gwneud tasgau o gwmpas y ty neu i gymdogion;
- Gofalu am fabanod i unigolion neu deuluoedd (ond gofalwch eich bod chi yn fodlon â'r cyfrifoldeb pwysig hwn);
- Profiad gwaith a drefnir gan ysgol eich plentyn.

DYWED Y GYFRAITH

Dywed Deddf Genedlaethol ac Is-ddeddfau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

- Bod rhaid i blant fod yn **13 oed** cyn gallu gweithio yn rhan amser.
- Ni all unrhyw blentyn gael ei gyflogi am fwy na 2 awr ar ddiwrnod ysgol, ac yn sicr **NID** yn ystod oriau ysgol.
- Ni all unrhyw blentyn weithio cyn **7:00 a.m.** nac ar ôl **7:00 p.m.**
- Ni chaiff unrhyw blentyn weithio mwy na 2 awr ar ddydd Sul.
- Ar ddydd Sadwrn a gwyliau ysgol gall plant dan 15 oed weithio uchafswm o 5 awr y dydd a phlant 15 oed neu drosodd weithio uchafswm o 8 awr y dydd.

- Ni all unrhyw blentyn weithio mwy na 4 awr y dydd heb gyfnod gorffwys o awr.
- **Mae'n ofynnol i blentyn mewn cyflogaeth gael o leiaf 2 wythnos yn olynol heb waith yn ystod gwyliau'r ysgol.**

RHAID TRWYDDEDU SWYDDI

Cyflogaeth yw **UNRHYW** waith a wneir yn fasnachol neu alwedigaethol a gyflawnir er mwyn gwneud elw neu mewn unrhyw fenter fasnachol. E.e. Siopau, Busnesau, Masnachu.

Mae hyn yn **cynnwys** unrhyw waith gysylltir â busnes y rhieni a gwaith lle na chaiff y plentyn ei dalu. Mae gwaith o'r fath yn **ANGHYFREITHLON** oni bai fod y cyflogwr yn cael trwydded ar gyfer pob plentyn a gyflogir. **Cyfrifoldeb y cyflogwr** yw cofrestru'r plentyn gyda'r Awdurdod Addysg Lleol ble mae'r plentyn yn **gweithio**.

Rhaid cael llofnod y rhieni ar y ffurflen gais yn ogystal â datganiad o ffitrwydd eu plentyn i weithio. **NI ALLANT** weithio yn ddi-arwybod i chi na heb eich caniatâd.

Efallai **NA FYDD** plant heb drwydded yn cael eu cyfrif fel gweithwyr at bwrpas yswiriant. Gall y cyflogwr wynebu erlyniad.

GWAITH A WAHARDDWYD I BOB PLENTYN

Er enghraifft:- Ceginau masnachol, Siopau sglodion, Dosbarthu llefrith, Stondinau marchnad. _____

Am ragor o wybodaeth cysyllter â'r:

Gweithiwr Cymdeithasol Addysg yn ysgol eich plentyn neu'r

Gwasanaethau Addysg:

☎: (01492) 575 096